

Gorffennaf 2016

Atodiad A - Ardaloedd Chwilio Posib ar gyfer Datblygiadau Ffermydd Gwynt

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Gwynedd a Môn



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD

Atodiad A - Ardaloedd Chwilio Posib ar gyfer Datblygiadau Ffermydd Gwynt

1.0 Cefndir

- 1.1 Yn 2012, aeth ARUP ati i weithio ar 'Cyfleoedd Cwmpasu Ynni Adnewyddadwy yng Ngwynedd' (DC.012), a gwnaed gwaith tebyg ar Ynys Môn yn 2013 a arweiniodd at 'Asesiad Capasiti Ynni Adnewyddadwy' (DC.013).
- 1.2 Defnyddiodd y ddwy astudiaeth Ganllaw Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Llawlyfr i Gynllunwyr (Mehefin 2010). Yn ogystal, ble bo'n berthnasol, defnyddiodd *DECC/SQW Energy Guidance, Renewable and Low-carbon Energy Capacity Methodology: Methodology for the English Regions (Jan 2010)* (Gellir gweld copi o'r ddogfen hon yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/226175/renewable_and_low_carbon_energy_capacity_methodology_jan2010.pdf). Er bod hwn wedi'i ysgrifennu fel canllaw ar gyfer Rhanbarthau Lloegr, roedd peth o'r fethodoleg yn drosglwyddadwy ar raddfa leol ac yn berthnasol yng Nghymru.
- 1.3 Nododd yr astudiaethau hyn 9 ardal bosib yng Ngwynedd a 6 ardal bosib yn Ynys Môn.
- 1.4 Ym mis Rhagfyr 2015, ysgrifennodd Gweinidog Cyfoeth Naturiol yng Nghymru at Aelodau Arweiniol Cynllunio i'w hysbysu o'r Newidiadau i Adran 12 Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Roedd y llythyr hefyd yn annog awdurdodau i lunio polisïau (yn cynnwys dyraniadau ardaloedd chwilio) ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa awdurdod lleol. Nododd:

“Byddai dynodi ardaloedd o'r fath yn dangos arweinyddiaeth ar lefel leol; yn rhoi sicrwydd i'r diwydiant ynni adnewyddadwy wrth wneud penderfyniadau buddsoddi; a, thrwy'r broses ymgynghori ar y CDLI, byddai'n rhoi llais i gymunedau ynghylch ble ddylai datblygiadau ynni adnewyddadwy gael eu lleoli. Drwy ddynodi'r ardaloedd hyn, gellir arwain datblygiadau i'r lleoliadau mwyaf priodol.”
- 1.5 Yn sgil hyn, mae'r Cynghorau wedi llunio'r adroddiad hwn i werthuso'r clystyrau posib o ffermydd gwynt a nodwyd yn adroddiadau ARUP ymhellach er mwyn canfod p'un a ddylid eu dynodi o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd) fel ardaloedd chwilio ai peidio.

2.0 Methodoleg

- 2.1 Dilynwyd y camau isod i asesu'r ardaloedd clystyrau gwynt posib a nodwyd yn astudiaethau Gwynedd (DC.012) ac Ynys Môn (DC.013) ymhellach:
 - Gan fod Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu diweddariad o 'Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Llawlyfr i Gynllunwyr' yn 2015, y cam

cyntaf yw cymharu'r fethodoleg a argymhellwyd ar gyfer adnoddau ynni gwynt yn y ddogfen hon gyda'r hyn a gynhwyswyd yn llawlyfr 2010. Bwriad hyn yw sicrhau bod darganfyddiadau'r adroddiadau ARUP yn parhau'n ddilys.

- Oherwydd yr asedau amgylcheddol arbennig eithriadol sydd wedi'u cydnabod a'u dynodi'n genedlaethol a rhyngwladol, comisiynwyd gwaith gan y Cynghorau ar 'Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd' (2014) (DC.020). Roedd hon yn gwerthuso capasiti gwahanol Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd i ymdopi â gwahanol fathau o ddatblygiad. Roedd un categori a gafodd ei werthuso yn ymwneud â datblygiadau Tyrbinau Gwynt. Felly, ail gam yr adroddiad oedd asesu'r ardaloedd posib a nodwyd yn adroddiad ARUP yn erbyn canfyddiadau'r Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd mewn perthynas â chapasiti ynni gwynt yn yr ardaloedd hyn.

3.0 Cam 1 - Cymharu Llawlyfr 2010 a 2015

- 3.1 Mae'r adroddiadau ARUP yn nodi bod yr asesiad a gynhaliwyd yn seiliedig ar ddefnyddio tyrbinau 2MW. Mae hyn yn unol â'r canllawiau yn llawlyfr 2010 ble mae *Project Sheet B Wind energy resource Step 1 'Decide on typology of wind turbine to use for the assessment'*, yn nodi:

"...At the time of writing this toolkit, a typical size of onshore wind turbine, and the one we propose you use for this assessment is as follows:

- *Rated output: 2MW*
- *Hub height: 80m*
- *Rotor diameter: 80M*
- *Height to blade tip at highest point ("tip height"): 120m...". [Noder - nid oes fersiwn Gymraeg ar gael]*

- 3.2 Mae llawlyfr diwygiedig 2015 yn defnyddio'r union deipoleg yn ei *Project Sheet B* ar gyfer *Step 1 typology of wind turbine*.
- 3.3 Felly, mae hyn yn cadarnhau fod yr asesiad a gynhaliwyd gan ARUP yn dal yn unol â chanllawiau llawlyfr 2015.

4.0 Cam 2 - Gwerthuso yn Erbyn yr Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd

- 4.1 Comisiynwyd Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd gan Gynghorau Gwynedd ac Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mewn ymateb i'r pwysau cynyddol ar y dirwedd, i helpu i ddiogelu'r tirweddau mwyaf sensitif a nodedig rhag datblygiadau amhriodol ac i annog agwedd gadarnhaol at ddatblygiadau yn y lleoliad cywir ac ar raddfa briodol. Mewn perthynas â datblygiadau ynni adnewyddadwy, asesodd ynni gwynt ac Ynni PV Solar mewn caeau.

ATODIAD A - ARDALOEDD CHWILIO POSIB AR GYFER DATBLYGIADAU FFERMYDD GWYNT

- 4.2 Mae'r astudiaeth yn darparu asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth o sensitifrwydd a capasiti cymharol tirweddau Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i allu ymdopi â phob math o'r datblygiadau hyn ar wahanol raddfeydd.
- 4.3 Roedd y fethodoleg yn cynnwys asesu Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd unigol yn erbyn gwybodaeth o fewn 24 haen LANDMAP, astudiaethau pen desg eraill a gynhaliwyd yn yr ardal a'r ymweliadau safle perthnasol i gefnogi a chymedroli'r canfyddiadau. Yna, arweiniodd hyn at lunio strategaethau ar gyfer datblygiadau o fewn pob ardal cymeriad y dirwedd (ACD) sy'n cynnwys capasiti cyffredinol dangosol yr ACD i ymdopi â'r mathau hyn o ddatblygiadau. Darperir y fethodoleg fanwl a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith hwn yn yr Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd (2014) (DC.020).
- 4.4 Cynhyrchodd yr Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd (2014) dabl teipoleg ar gyfer y gwahanol ddatblygiadau a aseswyd. Mewn perthynas â thyrbinau gwynt, nodwyd y deipoleg a ganlyn ac eglurodd yr adroddiad y bydd cynnig yn cael ei ystyried fel arfer fel un sy'n syrthio i'r categori sy'n cynrychioli'r math mwyaf o'r hyn y mae'n gymwys ar ei gyfer:

Tabl 1: Teipoleg Datblygiadau Ynni Gwynt

Teipoleg Ynni Gwynt	Allbwn Dangosol (categori allbwn eang)	Meini Prawf Atodol (yn diwallu un neu fwy o'r meini prawf) (yn penderfynu p'un a yw'r deipoleg hon neu un fwy yn berthnasol ai peidio)
DOMESTIG	Dan 10kW	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisiadau am un tyrbîn • Tyrbîn yn mesur hyd at 15m i frig y llafn • Gall y tyrbîn fod wedi'i osod ar do neu bolyn
MICRO	dan 50kW	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisiadau am un neu ddau dyrbin • Tyrbîn yn mesur hyd at 20m i frig y llafn
BYCHAN	dan 5MW	<ul style="list-style-type: none"> • Hyd at 3 tyrbîn mewn nifer • Tyrbinau yn mesur hyd at 50m i frig y llafn • Yn cael eu hystyried fel grŵp bychan
CANOLIG	dros 5MW a hyd at 25MW	<ul style="list-style-type: none"> • Hyd at 9 tyrbîn mewn nifer • Tyrbinau yn mesur hyd at 80m i frig y llafn • Yn cael eu hystyried fel grŵp mawr
MAWR	dros 25MW	<ul style="list-style-type: none"> • Deg neu fwy o dyrbinau o ran nifer • Tyrbinau yn mesur hyd at 110m i frig y llafn • Yn cael eu hystyried fel fferm wynt ar raddfa fawr
MAWR IAWN	Dros 25MW	<ul style="list-style-type: none"> • Deg neu fwy o dyrbinau o ran nifer • Tyrbinau yn mesur dros 110m i frig y llafn • Yn cael eu hystyried fel fferm wynt ar raddfa fawr

- 4.5 Ar sail y canllawiau yn Llawlyfr 2015 mewn perthynas â theipoleg tyrbîn gwynt i'w ystyried dan *Project Sheet B*: Adnodd ynni gwynt yn mesur hyd at 120 medr i frig y

llafn, byddai hyn yn cael ei gategoreiddio fel MAWR IAWN yn seiliedig ar deipoleg yr astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd.

- 4.6 Mae'r tablau isod yn nodi i ba Ardal Cymeriad y Dirwedd y mae pob safle a nodwyd yn perthyn yn ogystal â Sensitifrwydd Cyffredinol a Chapasiti Cyffredinol Dangosol ynghyd â Sylwadau/Argymhelliad ar gyfer pob ardal unigol a nodwyd yn adroddiad ARUP:

ADRODDIAD AR DDYRANNU ARDALOEDD CHWILIO AR GYFER DATBLYGIADAU FFERMYDD GWYNT

Tabl 2: Ardaloedd Posib Clystyrau Gwynt - Gwynedd				
Rhif y Clwstwr Gwynt	Ardal Cymeriad y Dirwedd	Astudiaeth Sensitifwydd a Chapasiti y Tirwedd		Sylwadau / Argymhellion
		Sensitifwydd yn ei Gyfanrwydd (Datblygiadau ynni Gwynt)	Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	
1	G07 – Gorllewin Llŷn	Uchel	Yn nodweddiadol ddim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (Ac eithrio datblygiadau ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai gysylltu'n dda gydag anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod).	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.
2	G07 Gorllewin Llŷn	Uchel	Yn nodweddiadol ddim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (Ac eithrio datblygiadau ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai gysylltu'n dda gydag anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod).	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.
3	G06 – Arfordir Gogledd Llŷn	Uchel-Iawn	Yn nodweddiadol ddim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (Ac eithrio datblygiadau ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai gysylltu'n dda gydag anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod).	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.
4	G08 – Arfordir Pwllheli – Criccieth	Canolig-Uchel	O fewn yr ardaloedd sy'n cyfrannu at osodiad yr ATAU a'r Parc Cenedlaethol, yn nodweddiadol does dim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (Ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn, a ddylai gysylltu'n dda gyda'r anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod)	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.

ADRODDIAD AR DDYRANNU ARDALOEDD CHWILIO AR GYFER DATBLYGIADAU FFERMYDD GWYNT

Tabl 2: Ardaloedd Posib Clystyrau Gwynt - Gwynedd				
Rhif y Clwstwr Gwynt	Ardal Cymeriad y Dirwedd	Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Tirwedd		Sylwadau / Argymhellion
		Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd (Datblygiadau ynni Gwynt)	Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	
			Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro a allai yn nodweddiadol gynnwys tyrbinau unigol hyd at 20m i frig y llafn; Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau cronrus gyda datblygiadau modern fertigol sy'n bodoli eisoes.	
5	G09 – Porthmadog	Uchel	Yn nodweddiadol ddim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (Ac eithrio datblygiadau ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai gysylltu'n dda gydag anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod).	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.
6	G03 – Llanberis-Bethesda	Canolig-Uchel	O fewn yr ACT (a phob ardal sy'n cyfrannu at ei leoliad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), yn nodweddiadol does dim capasiti ar gyfer datblygiad ynni gwynt (Ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn, a ddylai gysylltu'n dda gyda'r anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod) Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro a allai yn nodweddiadol gynnwys tyrbinau unigol	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.

ADRODDIAD AR DDYRANNU ARDALOEDD CHWILIO AR GYFER DATBLYGIADAU FFERMYDD GWYNT

Tabl 2: Ardaloedd Posib Clystyrau Gwynt - Gwynedd				
Rhif y Clwstwr Gwynt	Ardal Cymeriad y Dirwedd	Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Tirwedd		Sylwadau / Argymhellion
		Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd (Datblygiadau ynni Gwynt)	Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	
			hyd at 20m i frig y llafn; Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau cronrus gyda datblygiadau modern fertigol sy'n bodoli eisoes.	
7	G11 – Blaenau Ffestiniog	Canolig-Uchel	<p>O fewn yr ardaloedd sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol ac AOHN CDLIE, yn nodweddiadol nid oes capasiti ar gyfer datblygiad ynni gwynt (Ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn, a ddylai gysylltu'n dda gyda'r anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod)</p> <p>Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro a allai yn nodweddiadol gynnwys tyrbinau unigol hyd at 20m i frig y llafn; Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau cronrus gyda datblygiadau modern fertigol sy'n bodoli eisoes.</p>	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.
8	G12 – Llandderfel	Canolig-Uchel	Yn nodweddiadol ddim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (Ac eithrio datblygiadau ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai gysylltu'n	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.

ADRODDIAD AR DDYRANNU ARDALOEDD CHWILIO AR GYFER DATBLYGIADAU FFERMYDD GWYNT

Tabl 2: Ardaloedd Posib Clystyrau Gwynt - Gwynedd				
Rhif y Clwstr Gwynt	Ardal Cymeriad y Dirwedd	Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Tirwedd		Sylwadau / Argymhellion
		Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd (Datblygiadau ynni Gwynt)	Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	
			dda gydag anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod).	
9	G15 - Tywyn	Canolig-Uchel	Yn nodweddiadol ddim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (Ac eithrio datblygiadau ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai gysylltu'n dda gydag anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod).	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.

Tabl 3: Ardaloedd Posib Clystyrau Gwynt - Ynys Môn				
Rhif y Clwstr Gwynt	Ardal Cymeriad y Tirwedd	Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Tirwedd		Sylwadau / Argymhellion
		Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd (Datblygiadau ynni Gwynt)	Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	
1	A15 Afon Cefni	Canolig-Uchel	Yn nodweddiadol ddim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (Ac eithrio datblygiadau ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai gysylltu'n dda gydag anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod).	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.

ADRODDIAD AR DDYRANNU ARDALOEDD CHWILIO AR GYFER DATBLYGIADAU FFERMYDD GWYNT

Tabl 3: Ardaloedd Posib Clystyrau Gwynt – Ynys Môn				
Rhif y Clwstwr Gwynt	Ardal Cymeriad y Tirwedd	Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Tirwedd		Sylwadau / Argymhellion
		Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd (Datblygiadau ynni Gwynt)	Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	
2	A17 – Gorllewin Canol Ynys Môn	Canolig	<p>O fewn yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol nid oes cynhwysedd ar gyfer datblygiad ynni gwynt (ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai berthyn yn dda i'r anheddiad / adeiladau presennol)</p> <p>Y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ystyrir y gall fod rhywfaint o gynhwysedd ar gyfer datblygiadau pellach ar raddfa micro - fach, a allai yn nodweddiadol gynnwys tyrbin senl neu glystyrau bach o dyrbinau (hyd at 3) hyd at 50m i flaen y llafn. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli'n ofalus er mwyn osgoi effeithiau cynyddol â'r tyrbinau a ffermydd gwynt presennol ynghyd â datblygiadau modern fertigol eraill.</p>	<p>Mae'r deipoleg a ddefnyddiwyd mewn perthynas â'r Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Tirwedd hefyd yn cyfeirio at Allbwn Dangosol. Fodd bynnag, mae paragraff 2.45 yr adroddiad yn nodi fod hyn yn cael ei gynnwys er diben cyfeirio yn unig ac na ddylid defnyddio'r wybodaeth hon i bennu pa deipoleg sy'n berthnasol â datblygiadau ynni gwynt arfaethedig. Yr effaith ar sail nifer ac uchder y tyrbinau sydd wedi'u hasesu yn yr astudiaeth hon ydyw. Felly, dylid ystyried capasiti'r ardaloedd i ymdopi â thyrbinau sy'n mesur hyd at 120 metr i 'uchder brig y llafn' yn unol â'r fethodoleg yn y</p>

ADRODDIAD AR DDYRANNU ARDALOEDD CHWILIO AR GYFER DATBLYGIADAU FFERMYDD GWYNT

Tabl 3: Ardaloedd Posib Clystyrau Gwynt - Ynys Môn				
Rhif y Clwstr Gwynt	Ardal Cymeriad y Tirwedd	Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Tirwedd		Sylwadau / Argymhellion
		Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd (Datblygiadau ynni Gwynt)	Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	
				llawlyfr. Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.
3	A12 – Dwyrain Canol Ynys Môn	Canolig-Uchel	O fewn yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol nid oes cynhwysedd ar gyfer datblygiad ynni gwynt (ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai berthyn yn dda i'r anheddiad / adeiladau presennol) Y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ystyrir y gall fod cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer datblygiadau pellach ar raddfa micro - fach sydd wedi'u lleoli'n dda a allai fel arfer gynnwys tyrbinau senl hyd at 20m i frig y llafn.	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.
4	A18 – Gorllewin	Canolig	O fewn yr AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a	Ddim yn ardal addas i gael ei

ADRODDIAD AR DDYRANNU ARDALOEDD CHWILIO AR GYFER DATBLYGIADAU FFERMYDD GWYNT

Tabl 3: Ardaloedd Posib Clystyrau Gwynt – Ynys Môn				
Rhif y Clwstwr Gwynt	Ardal Cymeriad y Tirwedd	Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Tirwedd		Sylwadau / Argymhellion
		Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd (Datblygiadau ynni Gwynt)	Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	
	Canol Ynys Môn		<p>phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol nid oes cynhwysedd ar gyfer datblygiad ynni gwynt (ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai berthyn yn dda i'r anheddiad / adeiladau presennol)</p> <p>Y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ystyrir y gall fod cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro - fach sydd wedi'u lleoli'n dda a allai fel arfer gynnwys tyrbinau sengl hyd at 20m i frig y llafn.</p>	ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.
5	A17 – Gorllewin Canol Ynys Môn	Canolig	<p>O fewn yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol nid oes cynhwysedd ar gyfer datblygiad ynni gwynt (ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai berthyn yn dda i'r anheddiad / adeiladau presennol)</p> <p>Y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ystyrir y gall fod rhywfaint o gynhwysedd ar gyfer</p>	Mae'r deipoleg a ddefnyddiwyd mewn perthynas â'r Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd hefyd yn cyfeirio at Allbwn Dangosol. Fodd bynnag, mae paragraff 2.45 yr adroddiad yn nodi fod hyn yn cael ei gynnwys er diben cyfeirio yn unig ac na ddylid

ADRODDIAD AR DDYRANNU ARDALOEDD CHWILIO AR GYFER DATBLYGIADAU FFERMYDD GWYNT

Tabl 3: Ardaloedd Posib Clystyrau Gwynt – Ynys Môn				
Rhif y Clwstwr Gwynt	Ardal Cymeriad y Tirwedd	Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Tirwedd		Sylwadau / Argymhellion
		Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd (Datblygiadau ynni Gwynt)	Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	
			datblygiadau pellach ar raddfa micro - fach, a allai yn nodweddiadol gynnwys tyrbin senl neu glystyrau bach o dyrbinau (hyd at 3) hyd at 50m i flaen y llafn. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli'n ofalus er mwyn osgoi effeithiau cynyddol â'r tyrbinau a ffermydd gwynt presennol ynghyd â datblygiadau modern fertigol eraill.	defnyddio'r wybodaeth hon i bennu pa deipoleg sy'n berthnasol â datblygiadau ynni gwynt arfaethedig. Yr effaith ar sail nifer ac uchder y tyrbinau sydd wedi'u hasesu yn yr astudiaeth hon ydyw. Felly, dylid ystyried capasiti'r ardaloedd i ymdopi â thyrbinau sy'n mesur hyd at 120 medr i 'uchder brig y llafn' yn unol â'r fethodoleg yn y llawlyfr. Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.
6	A08 – Cefn Wlad Bae Dulas	Canolig-Uchel	O fewn yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol nid oes cynhwysedd ar gyfer	Ddim yn ardal addas i gael ei ddynodi fel ardal chwilio ar gyfer datblygiad ynni gwynt.

ADRODDIAD AR DDYRANNU ARDALOEDD CHWILIO AR GYFER DATBLYGIADAU FFERMYDD GWYNT

Tabl 3: Ardaloedd Posib Clystyrau Gwynt – Ynys Môn				
Rhif y Clwstwr Gwynt	Ardal Cymeriad y Tirwedd	Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Tirwedd		Sylwadau / Argymhellion
		Sensitifrwydd yn ei Gyfanrwydd (Datblygiadau ynni Gwynt)	Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	
			<p>datblygiad ynni gwynt (ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai berthyn yn dda i'r anheddiad / adeiladau presennol)</p> <p>Y tu allan i'r AOHNE a'r ATAAu ystyrir y gall fod capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro pellach a allai yn nodweddiadol gynnwys tyrbinau sengl hyd at 20m hyd uchder blaen y llafn; Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau gweledol o annibendod / cronnus gyda ffermydd gwynt presennol a datblygiadau modern fertigol eraill.</p>	

5.0 Casgliad

- 5.1 Yng ngoleuni'r canfyddiadau yn adran 4.0 uchod, ni ddylai unrhyw un o'r ardaloedd posib a nodwyd yn adroddiad ARUP gael eu ddynodi fel ardaloedd chwilio ar gyfer clystyrau o ddatblygiadau gwynt yn y CDLI ar y Cyd.